

## **Diarhebbion 9:1- 10** (Beibl.net)

Mae Doethineb wedi adeiladu ei thŷ;  
ac mae wedi naddu saith colofn iddo.

Mae hi wedi paratoi gwledd,  
cymysgu'r gwin,  
a gosod y bwrdd.

Mae hi wedi anfon ei morynion allan  
i alw ar bobl drwy'r dre.

Mae'n dweud wrth bobl sy'n brin o synnwyr cyffredin,  
"Dewch yma, chi bobl wirion!

Dewch i fwyta gyda mi,  
ac yfed y gwin dw i wedi'i gymysgu.

Stopiwch fod mor ddwl, i chi gael byw;  
dechreuwch gerdded ffordd gall."

Ceisio gywiro rhywun balch sy'n gwawdio a chei lond ceg!

Cerydda rywun drwg a byddi'n cael dy gam-drin.

Cerydda'r un balch sy'n gwawdio, a bydd yn dy gasáu di;  
ond os gwnei di geryddu'r doeth bydd e'n diolch i ti.

Rho gyngor i'r doeth, a byddan nhw'n ddoethach;

dysga'r rhai sy'n byw yn iawn a byddan nhw'n dysgu mwy.

Parchu'r ARGLWYDD ydy'r cam cyntaf i fod yn ddoeth,  
ac mae nabod yr Un Sanctaidd yn rhoi deall.

### **Myfyrdod**

Doethineb sy'n cael ei darlunio fel gwraig yn yr adnodau hyn. Y mae'n ceisio denu rhywrai i'w dilyn, ac mae'n debyg mai'r ifanc a'r dibrofiad sydd ganddi mewn golwg. Dyma'r rhai fydd yn gorfod gwneud dewisiadau tyngedfennol, ac mae'n bwysig i'r dewisiadau hynny fod yn rhai cywir.

Mae saith colofn tŷ Doethineb yn arwyddocau cyflawnder, gan yr ystyrid saith gan yr Iddewon yn rhif perffaith. Y mae hefyd wedi ei adeiladu ar y man uchaf yn y ddinas - safle a fyddai fel rheol yn cael ei neilltuo i gysegr neu deml. Nid rhyfedd hynny gan fod Doethineb yn Llyfr y Diarhebbion yn cael ei huniaethu â Duw, ac y mae troi ymaith oddi wrthi a dewis llwybr arall yn gyfystyr â throi ymaith oddi wrth yr Arglwydd.

Y mae'r adnodau olaf yn mynegi pa mor ddi-fudd a pheryglus yw cynghori a cheryddu'r bobl hynny a wrthyd ddoethineb. Dyma rai nad oes dysgu yn eu croen, ac na ellir eu hyfforddi gan eu bod yn gwybod yn well o lawer na phawb arall, ac yn barod bob amser i wneud hwyl am ben y sawl a'u cywira. Y mae pobl ddoeth yn gwbl wahanol, yn barod i dderbyn cerydd yn raslon a

dysgu oddi wrth bob camgymeriad. Yn wir, maent yn ddiolchgar i'r sawl sy'n eu cywiro ac yn ymagweddu'n gariadus tuag ato.

Yn olaf pwysleisir mai 'ofn yr Arglwydd yw dechrau doethineb, ac adnabod y Sanctaidd yw deall' (BCND).

### **Gweddi**

Ein Tad,

mewn byd dryslyd gweddiwn am ddoethineb,  
yng nghanol dewisiadau bywyd gofynnwn am dy arweiniad di.  
Diolch y cawn yr arweiniad hwnnw'n aml yn y cyffredin a'r cyfarwydd;  
mewn dihareb a gair o gyngor,  
yn esiampl pobl dda  
a charedigrwydd teulu a chyfeillion.  
Gwna ni'n agored bob amser i'r hyn a all ein hadeiladu,  
ac yn ddiolchgar am bob cerydd a beirniadaeth sydd er ein lles.

Wrth gyflwyno ein hunain i ti,  
cofiwn am yr ieuenctid sy'n dewis llwybr gyrfa a bywyd,  
pawb sy'n ymgymryd â gwaith a chyfrifoldeb newydd,  
y rhai sy'n gorfod dygymod â phethau fel y maent  
a phob un sy'n gorfod wynebu'r dieithr a'r anghyfarwydd.

Gweddiwn dros wleidyddion,  
rhai y bydd eu polisiau yn dylanwadu ar fywyd y ddynoliaeth,  
a'r arweinwyr y mae eu geiriau'n ganllaw i eraill.  
Dyro iddynt hwy ac i ninnau y gras i ddyfalbarhau,  
a'r gwyleidd-dra i ail-feddwl pan fo angen.

Cadw'r ddynoliaeth yn dy gariad a'r  
byd dan gysgod dy adenydd.

**Amen.**

### **Gweddi o eiriolaeth**

Ein Tad,

gweddiwn am heddwch mewn byd sy'n cael ei rwygo gan ryfel a gwrthdaro.  
Cofiw'n am y sefyllfa enbyd yn Afghanistan  
a'r bygythiad mawr yno i bobl ddiniwed.  
Cofiw'n am deuluoedd y rhai a gollwyd yn y brwydo a fu,  
a'u siom o weld nad oes fawr ddim yn newid,

a bod gelyniaeth yn ffynnu o hyd yn y wlad gythryblus honno.  
Yn dy drugaredd rho nerth i'r rhai sy'n ceisio heddwch,  
a dyfalbarhad i ddal ati er gwaethaf y rhwystrau.

Gweddiwn dros sefyllfa fregus ein byd  
o achos newid hinsawdd a llygredd.  
Cofiwn am drigolion gwlad Groeg a lleoedd eraill,  
orfodwyd i ffoi o flaen tanau,  
ac a welodd eu bywyd ar chwâl,  
a'u haelwydydd yn sarn.  
Dyro i arweinwyr byd ewyllys i ymateb yn adeiladol i'r argyfwng,  
ac i bobl ym mhob man y gobaith bair iddynt ymdrechu  
i wneud eu rhan i atal gwaeth trychineb.

Gweddiwn dros ein cymunedau a'n cydnabod,  
ein teuluoedd a'n cyfeillion,  
pawb sydd mewn angen,  
yr aelwydydd sydd mewn galar,  
a'r unigolion sy'n dioddef llesgedd ac anhwylder.

Cofiwn drigolion Haiti y rhwygwyd eu byd gan ddaeargryn,  
a phobl Plymouth brofodd erchylltra trais  
a chasineb diystyr.  
Wrth weld y diniwed yn dioddef  
Maent oll mewn cynnwrf a phenbleth.  
Yn dy drugaredd, Arglwydd, bugeilia hwy,  
a thry ein gweddiâu drostynt yn fendith,  
a'n hymbil yn gyfrwng nerth ac adnewyddiad.

A derbyn ni oll yn ddaionus,  
yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. **Amen.**

**Emyn** – 'Mae d'eisiau di bob awr' (221 C. Ff.)

**221**

Mae d'eisiau di bob awr,  
fy Arglwydd Dduw,  
daw hedd o'th dyner lais  
o nefol ryw.

Mae d'eisiau, O mae d'eisiau,  
bob awr mae arnaf d'eisiau,  
bendithia fi, fy Ngheidwad,  
bendithia nawr.

Mae d'eisiau di bob awr,  
trig gyda mi,  
cyll temtasiynau'u grym,  
yn d'ymyl di.

Mae d'eisiau di bob awr,  
rho d'olau clir,  
rho imi nerth, a blas  
dy eiriau gwir.

Mae d'eisiau di bob awr,  
sancteiddiaf Ri,  
yn lesu gwna fi'n wir  
yn eiddot ti.

ANNIE S. HAWKS, 1835-1918 cyf. IEUAN GWYLLT, 1822-77

### **Ctrl a chlic**

<https://youtu.be/Bc6r8e3wQnk>

'Mae D'Eisiau Di Bob Awr ', Richie Tomos - Goreuon Richie Thomas  
(Tenor)

### **Y Fendith**

Iddo ef sy'n abl i'ch gwneud yn gadarn... i Dduw, yr unig un ddoeth, y bo'r  
gogoniant, trwy lesu Grist - iddo ef y bo'r gogoniant am byth! Amen.  
(Rhuf 16:25,27)